

# RYDYM YN RECRIWTHIO

## UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





## Goruchwyliwr Bwyty/Bar - Café R

### Gwybodaeth allweddol

Cyflog : £21,322 i £23,541 y flwyddyn

Oriau : 37 awr yr wythnos

Contract : Parhaol

### Am y Rôl

Fel y Goruchwyliwr Bwyty / Bar yn Café R, byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod y cwsmer yn cael profiad gwych, a bod y staff yn cael eu arwain yn dda ac yn cael ei ysgogi.

Byddwch yn rheoli rota staff, taflenni amser a gwyliau, gan sicrhau bod digon o staff ar gael yn ystod shifftiau. Chi fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer delio â chwynion cwsmeriaid ac ymholiadau cymhleth, a byddwch yn sicrhau bod yr holl weithrediadau'n rhedeg yn esmwyth. Fel y Goruchwyliwr byddwch chi'n gyfrifol am gefnogi'r tîm i ddatblygu a thyfu.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd rydyn ni'n ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem ni'n disgwyl ichi gymryd cyfrifoldeb am hyn, gan sicrhau bod dyletswyddau glanhau a chynnal a chadw yn cael eu cyflawni at y safon disgwyliedig.



## Goruchwyliwr Bwyty / Bar - Café R

### Amdanoch chi

Byddwch yn frwdfrydig ac yn angerddol, gyda sgiliau pobl rhagorol. Bydd y person delfrydol yn drefnus iawn ac yn gallu defnyddio ei fenter i ddatrys problemau yn gyflym ac yn effeithiol, ac yn ddigynnwrf.

Yn ddefrydol, bydd gennych rywfaint o brofiad o weithio o fewn amgylchedd sy'n wynebu cwsmeriaid neu letygarwch, ynghyd â chymhwyster Hylendid Bwyd Lefel 2. Fodd bynnag, rydym yn hapus i'ch cefnogi i gyflawni'r cymhwyster hwn os nad oes gennych hwn eisoes. Rydyn ni wrth ein bodd yn datblygu ein staff, felly mae'r awydd i ddysgu a datblygu yn angenrheidiol i'r rôl hon.

Mae'r rôl hon yn cynnwys arwain eraill ac felly mae sgiliau arwain yn bwysig ar gyfer y swydd hon. Y sgiliau arwain rydyn ni'n chwilio amdanyn nhw yw:

- Y gallu i ysbrydoli, cymell a grymuso eraill
- Angerdd i ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid
- Dibynadwyedd a gwytnwch
- Gonestrwydd, gyda'r gallu i gymryd cyfrifoldeb a gofyn am help pan fo angen

Os ydych chi'n arweinydd cyfeillgar sy'n canolbwyntio ar bobl, yn chwilio am gam i fyny yn eich gyrfa, ac yr hoffech chi weithio mewn Cwmni hynod lwyddiannus, cyflym, yna gallai hyn fod yn berffaith i chi.



## Goruchwyliwr Bwyty / Bar - Café R

### Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych wedi datblygu portffolio sy'n arwain y sector o gyfleusterau iechyd a ffitrwydd, ac mannau bwyd a diod. Gyda 7 bwyty, bar a Chaffi rhagorol ledled Sir Ddinbych, rydym yn cymharu â'r gorau yn y sector preifat, gan ddarparu cydbwysedd bywyd a gwaith heb ei ail i'n staff.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn gweithio i athroniaeth 'un tîm, un banc' - rydym i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle y gallwch fod wedi'i leoli. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn llwyddiannus.

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom bob amser i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn dod yn gryfach ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.



## Goruchwyliwr Bwyty / Bar - Café R

### Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Lwfans gwyliau blynyddol yn dechrau ar 33 diwrnod (gyda'r cyfle i brynu mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiâu teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Lleoliad: Café R, Canolfan Grefft, Ruthun

Dyddiad Cau: 20 Ionawr 2022

Gwnewch gais drwy: ebostio eich CV i

Dafydd.Howatson@denbighshireleisure.co.uk